| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel y nodir uchod** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi ei sefydlu yng Nghymru o ganlyniad i'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Penn ar y Drefn Foesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

1.3 Bydd Swyddogion Monitro Awdurdodau gogledd Cymru yn mynychu ar sail rota er mwyn darparu cyngor proffesiynol.

## 2. CYFARFODYDD FFORWM

2.1 Mae dau gyfarfod wedi eu cynnal hyd yma, un ar 27 Ionawr 2023 ac un ar 30 Mehefin 2023.

2.2 Trafodwyd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2023 yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

2.3 Rhannwyd nodiadau o gyfarfod Fforwm mis Mehefin 2023 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau a chawsant eu trafod mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2023.

2.4 Yn dilyn y drafodaeth hon, penderfynodd y Pwyllgor Safonau ysgrifennu at y Fforwm mewn perthynas â dau fater. Mae copi o'r ohebiaeth a anfonwyd at weinyddydd y Fforwm wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

2.5 Mae cyfarfod nesaf y Fforwm wedi'i drefnu ar gyfer 29 Ionawr 2024. Bydd Mr John R Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau hwn, yn mynychu.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, mewn perthynas â nodiadau'r Fforwm – *"caniateir i nodiadau gael eu cylchredeg i Bwyllgorau Safonau, cyn belled â nad oes nodd i achwynydd neu Gynghorydd a gafwyd cwyn yn eu herbyn gael eu hadnabod. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn/yn dilyn pob cyfarfod."*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## ATODIAD 1

**Ar gyfer: Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol**

Anfonaf gais ar ran Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn, os gwelwch yn dda, ar gyfer cyfarfod nesa'r Fforwm (Ionawr 2024).

1. Roedd trafodaeth dda yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm ym Mehefin 2023 ynghylch cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned gyda'i materion ymddygiad. Mae mwyafrif helaeth o Gynghorau Tref a Chymuned yn ein hardal ni yn aelodau o Un Llais Cymru a cymerwn yn ganiataol mai dyma'r patrwm yn genedlaethol hefyd. O ystyried hyn felly, a bod Un Llais Cymru yn cynnig cefnogaeth gyflawn i Gynghorau Tref a Chymuned, gofynnir a fyddai posib trefnu bod cynrychiolydd o Un Llais Cymru yn mynychu cyfarfod nesa'r Fforwm?

   Gofynnir i'r cynrychiolydd gyflwyno:

   a. Gwybodaeth gyffredinol ynghylch yr hyn a gynigir gan Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned sy'n derbyn eu cefnogaeth ganddynt; a

   b. Manylion penodol ynghylch materion ymddygiad / Cod Ymddygiad; materion megis:
      1. Pa ddogfennaeth / adnoddau sydd gan Un Llais Cymru ar gyfer CTC ynghylch ymddygiad?
      2. Beth ydi prosesau Un Llais Cymru er mwyn rhannu'r adnoddau hyn? A fydd hynny yn cael ei wneud ar gais yn unig ac ym mha fformat?
      3. Ydi Un Llais Cymru yn cynnig hyfforddiant ar ymddygiad / y cod ymddygiad i aelodau? Os felly, sut gwneir y cynnig hwn? Sut bydd y ddarpariaeth yn cael ei chynnig h.y. Ystafell ddosbarth / ar-lein? Pa mor aml cynhelir sesiynau? Beth ydi'r gost?
      4. Mae gan Un Llais Cymru brotocol datrysiad lleol sy'n cael ei annog yn y CTC gan yr Ombwdsmon. Pa gefnogaeth roddir i'r CTC / Clerc / aelodau o fewn y CTC ar y drefn hon? Oes Hyfforddiant cyfryngu ar gael?
      5. Unrhyw fodd arall mae Un Llais Cymru yn cynnig cefnogaeth i GTC ar faterion ymddygiad.

   Y bwriad wedyn fydd rhaeadru'r wybodaeth yma i'r Cynghorau Cymuned yn lleol tra hefyd yn codi ymwybyddiaeth y Pwyllgorau Safonau.

2. Mae'r mater hwn yn codi yn dilyn trafodaethau gydag Arweinyddion Grwpiau yn ddiweddar ynghylch eu dyletswyddau newydd o dan Ddeddf 2021.

   Mae Hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion Grwpiau yn cael ei drefnu gan CLlLC.

   a. Beth ydi'r amserlen ar gyfer yr Hyfforddiant hwn?
   b. A fyddai posib i aelodau Pwyllgorau Safonau gael mynediad at yr Hyfforddiant (neu yr adnoddau) ar gyfer Arweinyddion Grwpiau hefyd, fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn bydd yr Arweinyddion Grwpiau wedi cael eu cynghori?

Gyda diolch am ystyried y cais.

Yn gywir
John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn